

Grŵp Trawsbleidiol ar Ymchwil Meddygol  
Y Cyfarfod Cyntaf

13 Tachwedd 2018  
12 - 1.30 p.m.  
Ystafell Gynadledda B, Tŷ Hywel

### Cofnodion

#### **Yn bresennol**

Dr Dai Lloyd AC, Cadeirydd

#### **Yn cyflwyno:**

Emma Henwood, BHF Cymru  
Andy Glyde, CRUK  
Dr Carina Fraser, Prifysgol Caerdydd

Adam Fletcher, BHF Cymru  
Martin Fidler-Jones, Gofal Canser Tenovus  
Ed Bridges, Prifysgol Caerdydd  
Kate Shires, Rheolwr Biobank, Prifysgol Caerdydd  
Christopher Thomas, Rheolwr Ansawdd Biobank, Prifysgol Caerdydd  
Matthew O'Grady, Swyddog Polisi, Gwybodaeth ac Ymgyrchoedd, y Gymdeithas Strôc  
Huw Owens, Alzheimer's UK  
Lee Campbell, Ymchwil Canser Cymru  
Kielan Arblaster, The Brain Tumour Charity  
Lynne Davies, CRUK  
Oliver John, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion  
Gethin Jones, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant  
Rhian Thomas-Turner,  
Lowri Jackson, Coleg Brenhinol y Ffisigwyr  
Joe Ferris, ABPI  
Cari-Anne Quinn, Canolfan Gwyddorau Bywyd  
Yr Athro Alan Williams, Prifysgol Abertawe  
Dr Chris George, Prifysgol Abertawe  
Dr Rachel Adams, Prifysgol Metropolitan Caerdydd  
Christopher Fegan  
Helen West, staff cefnogi Julie Morgan  
Julie Morgan AC  
Angela Shendy, staff cymorth Suzy Davies AC  
Jamie Evans, staff cymorth Dai Lloyd AC

#### 1. Croeso a chyflwyniad gan y Cadeirydd

Croesawodd Emma Henwood bawb, ac ymddiheurodd ar ran Angela Burns AC, nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn, a Dr Dai Lloyd AC, a oedd yn cadeirio'r cyfarfod, ond nad oedd yn gallu bod gyda'r grŵp tan 12.30pm.

Gofynnodd Emma i bawb gyflwyno eu hunain, ac yna gofynnodd i Andy Glyde o CRUK a allai ddechrau ar ei gyflwyniad.

#### 2. Adroddiad Cancer Research UK ar yr Amgylchedd Meddygol yng Nghymru

Andy Glyde, Rheolwr Materion Cyhoeddus, CRUK Cymru

Siaradodd Andy drwy'r sleidiau ar yr adroddiad a ryddhawyd gan CRUK y diwrnod blaenorol (dydd Llun 12 Tachwedd 2018) i'r amgylchedd meddygol yng Nghymru. Eglurodd Andy mai dyma'r adroddiad cyntaf yn y DU, ond y byddai'r gwledydd eraill yn rhyddhau adroddiadau tebyg maes o law.

Cymerodd Dr Dai Lloyd ei sedd ar ôl cyrraedd yr ystafell yn ystod y cyflwyniad. Gofynnodd a fyddai Andy yn hapus i ateb cwestiynau.

Siaradodd Rhian Thomas-Turner am y gwahanol heriau o ran ymchwil pediatrig, gan gynnwys yr angen i gydweithio'n fyd-eang oherwydd maint y boblogaeth cleifion sydd ei hangen ar gyfer treialon.

Siaradodd Lee Campbell am yr ymchwil canser sy'n digwydd yng Nghaerdydd.

Siaradodd Andy am yr angen i Lywodraeth Cymru ymrwymo i'r strategaeth ymchwil canser. Her na ddylai'r arian gan Lywodraeth Cymru gael ei gymryd yn ôl ei werth oherwydd, mewn rhai achosion, mae cyllid wedi'i dorri mewn mannau eraill.

Siaradodd Chris Fegan am yr angen i ariannwyr a'r trydydd sector gymryd rhan yn natblygiad y strategaeth ymchwil canser, ac i HCRW fod yn fwy strategol.

### 3. Cyflwyniad Biobank Prifysgol Caerdydd

Dr Carina Fraser, Cynghorydd Llywodraethu a Strategaeth

Dosbarthodd Ed Bridges o Brifysgol Caerdydd briff cysylltiedig, a throsglwyddodd yr awenau i Dr Fraser i gyflwyno.

Siaradodd Dr Carina Fraser am Biobank newydd Prifysgol Caerdydd, a agorwyd y mis blaenorol.

### 4. Cyflwyniad fideo llygredd aer BHF

Mark Miller, Prifysgol Caeredin, a Dr Rachel Adams, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Cyflwynodd Emma Henwood y fideo, sydd ar gael yma:

[https://www.youtube.com/watch?v=MmHjIK\\_YG8g&feature=youtu.be](https://www.youtube.com/watch?v=MmHjIK_YG8g&feature=youtu.be)

Cyflwynodd Emma Dr Rachel Adams, a ddywedodd ei bod hi'n hapus i ateb cwestiynau am y materion a godwyd yn y fideo.

Gofynnodd Lee Campbell am y cysylltiad rhwng gwahanol ganserau a llygredd aer.

Cytunodd Dr Adams, a siaradodd am sut y mae llygryddion yn effeithio ar wahanol gyflyrau.

Soniodd Julie Morgan am nifer yr ysgolion yng Nghaerdydd y gwyddys eu bod mewn ardaloedd llygredig iawn, neu ger ffyrdd â llygredd uchel.

Siaradodd Dr Adams am yr ymyriadau bach y gellid eu gwneud i sicrhau bod llygryddion yn cael eu gwasgaru, ac nad ydynt yn effeithio ar blant na phobl sy'n byw yn yr ardal.

Gofynnodd Dai Lloyd i Dr Adams siarad hefyd am y mathau o lygredd dan do y bu hi'n siarad amdanynt mewn digwyddiad lle y bu ef yn bresennol.

Siaradodd Dr Adams am y materion gydag adeiladau hŷn (yn enwedig ysgolion) a allai fod yn agored i rai llygryddion, a allai hefyd effeithio ar y system anadlu a chylchrediad y gwaed.

### 5. Trafodaeth ar y pynciau y byddai'r Grŵp Trawsbleidiol yn hoffi eu cyflwyno ar gyfer y cyfarfodydd nesaf

Cyflwynodd Dai Lloyd yr eitem, ac agor ar gyfer trafodaeth ar y pynciau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Dywedodd Joe Ferris fod ABPI yn hapus i helpu gydag unrhyw bynciau y gellid edrych arnynt, a soniodd am fewnbwn gan y diwydiant.

Soniodd Cari-Anne Quinn y dylid ystyried y claf o fewn y pynciau, gan ddod â'r ymchwil a'r person a oedd angen y driniaeth ynghyd.

Dywedodd Andy Glyde y byddai gan CRUK set ddata dadansoddi iechyd yn barod ym mis Mawrth 2019.

Soniodd Lowri Griffiths am y gweithlu, a bod llai o amser wedi'i ddiogelu ar gyfer ymchwil gan feddygon mewn hyfforddiant. Roedd angen i gynllunio gwaith ystyried ymchwil, ac roedd diffyg ymchwil ar lefel uwch.

Soniodd Dai Lloyd am ymchwil gofal sylfaenol ac ymchwil lefel poblogaeth.

Soniodd Huw Owens am effaith ymchwil cymdeithasol a lles, a'r Astudiaeth Ddelfrydol. Astudiaeth hirdymor i les a gydweithredir gan HEIW, Llywodraeth Cymru, a diwydiant.

Siaradodd Martin Fidler-Jones am therapi Viro a thriniaeth therapi uwch.

Dywedodd Ed Bridges y gallai drefnu taith labordy ym Mhrifysgol Caerdydd ar gyfer grŵp trawsbleidiol yn y dyfodol.

#### 6. Ethol Ysgrifennydd a Chadeirydd

Gofynnodd Dai Lloyd a oedd Emma yn cynnig ei hun i fod yn ysgrifennydd ar ran BHF, a chadarnhaodd ei bod hi. Gofynnodd Dai i'r rhai a oedd yn bresennol a oeddent yn hapus â hyn. Cadarnhawyd Angela Burns yn Gadeirydd y grŵp at y dyfodol.